

# Asesiad Amgylcheddol Ysgol

## Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Amgylcheddol hwn wedi cael ei ddylunio i archwilio'r ysgol yn seiliedig ar fesurau amgylcheddol gwahanol fel defnydd ynni, bioamrywiaeth, cludiant a defnydd dŵr. Mae hyn er mwyn i ddysgwyr nodi'r weithred bositif mae'r ysgol eisoes yn ei wneud ar gyfer yr amgylchedd, tra hefyd yn nodi meysydd ble gallai'r ysgol wella.

## Cyfarwyddiadau

Dechreuwch drwy ddarllen drwy'r cwestiynau - byddwch yn gallu ateb rhai tra'n eistedd wrth eich desg, bydd rhai angen i chi fynd am dro o amgylch yr ysgol, a bydd rhai angen i chi ofyn i'ch athro.

Ticiwch 'Oes' os oes gan eich ysgol hyn yn ei le, ticiwch 'Na' os nad oes gan eich ysgol.

'Oes' = 1 pwynt

'Na' = 0 pwynt

Unrhyw un o'r cwestiynau ble rydych yn ticio 'Na' yn y 'Camau/Sylwadau', ydych chi'n gallu meddwl am ffyrdd y gallwch newid y 'Na' i 'Ydw'?

Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich archwiliad, dylech gyfrif faint o bwyntiau sydd gan eich ysgol ac yna eu hychwanegu i'r 'cyfanswm pwyntiau' ar waelod y ddogfen. Mae pwyntiau yn golygu cynnydd. Mae mwy o bwyntiau yn golygu bod eich ysgol eisoes yn cymryd camau cadarnhaol. Mae sgôr o sero yn amlygu'r meysydd ble gall eich ysgol wella arnynt.

Yn olaf, ar waelod y ddogfen mae 'Beth Aeth yn Dda' a 'Hyd yn oed yn well os'. Dylai hyn gynnwys o leiaf un cam gweithredu o bob adran. e.e. 'Cael labeli sy'n hybu pa offer y gellir ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio'.

## Asesiad Amgylcheddol Ysgol

Cwestiynau Ynni	Ydw	Nac ydw
Ydych chi'n gweld unrhyw wybodaeth am arbedion ynni o amgylch yr ysgol?		
A yw ffenestri a drysau bob amser yn cael eu cadw ynghau pan fydd y gwres ymlaen?		
A yw'r rheiddiaduron yn rhydd o unrhyw rwystrau?		
A yw paneli adlewyrchu wedi eu gosod y tu ôl i reiddiaduron? (ffoil adlewyrchu metel y tu ôl i reiddiadur)		
A oes gan yr ystafell ddosbarth thermostat ac a yw'n cael ei ddefnyddio'n gywir? (e.e. ardaloedd addysgu arferol 18°C)		
A yw ffenestri yn lân i ganiatáu golau naturiol i mewn?		
A yw goleuadau yn cael eu diffodd mewn ystafelloedd gwag?		
A yw goleuadau yn cael eu diffodd gynted ag y bydd yna ddigon o olau dydd?		
A oes yna labeli ger yr offer yn hybu eu diffodd pan na ddefnyddir? (Cyfrifiaduron, Monitor, Argraffwyr, Taflunwyr)		
A yw'r offer hwn yn cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio? (Cyfrifiaduron, Monitor, Argraffwyr, Taflunwyr)		
A oes yna rywun yn gyfrifol am fonitro'r defnydd o ynni yn eich ysgol? (Edrych ar faint sy'n cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd)		
A ydy myfyrwyr yn gwybod sut i gymryd darlenniadau ynni?		
A oes gan eich ysgol unrhyw ffynonellau ynni adnewyddadwy? (tyrbinau gwynt, paneli solar).  Os oes, atebwch y cwestiwn nesaf		
A oes yna wybodaeth ar gael am faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei greu (e.e. mesurydd ynni)?		
A yw pawb yn ymwybodol o faint mae arbed ynni yn gallu arbed y blaned a chostau?		

### Camau Gweithredu / Sylwadau:

## Asesiad Amgylcheddol Ysgol

Cwestiynau Gwastraff	Ydyn	Nac ydyn
A yw myfyrwyr yn dod â bocsys bwyd/poteli y gellir eu hailddefnyddio?		
A yw biniau ailgylchu ar gael mewn prif leoliadau o amgylch yr ysgol?		
A yw'r biniau ailgylchu yn cynnwys y gwastraff cywir ynddynt?		
A yw holl wastraff yn ystod amser egwyl/cinio yn cael ei roi yn y biniau ailgylchu?		
A oes yna unrhyw sbwriel ar dir yr ysgol?		
A yw cegin yr ysgol yn ailgylchu gwastraff? (Bwyd, Cardfwrdd, Plastig)		
A oes gan eich ysgol fin compost ac a yw'n cael ei ddefnyddio?		
A yw papur yn cael ei ddefnyddio ar y ddwy ochr?		
A yw'r ysgol yn prynu cynnych a wnaed o ddeunydd ailgylchu? (Llyfrau, pensiliau)		
A yw swyddogion/argraffwyr yn defnyddio papur ailgylchu?		
A oes gan yr ysgol siop gyfnewid? (Llyfrau, Gemau, Gwisg Ysgol)		
A yw myfyrwyr yn gwybod pam ei bod yn bwysig i roi yn y bin, gostwng, ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu?		

### Camau Gweithredu / Sylwadau:

## Asesiad Amgylcheddol Ysgol

Cwestiynau Cludiant	Ydyn	Nac ydyn
A ydy myfyrwyr yn cerdded, beicio neu'n dal y bws i'r ysgol?		
A oes yna rywle i storio beiciau/sgwteri?		
A yw ardal gyfagos yr ysgol yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr? (Goleuadau stryd, croesfan i gerddwyr, lonydd beicio, dyn/dynes lolipop)		
A oes gan yr ysgol gynllun teithio i'r ysgol?		
A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw ymgyrch teithio llesol? (Bws beic, Cerdded i'r Ysgol ar ddydd Mercher)		
A oes gan eich ysgol gefnogwr 'teithio llesol'?		
<b>Camau Gweithredu/Sylwadau:</b>		

Cwestiynau Dŵr	Oes	Nac oes
A oes gan eich ysgol ddyfeisiau arbed dŵr? (tapiau gwthio, toiledau gwacau nifer isel, gwacau wrin ar gais yn unig)		
A oes gan yr ysgol gasgen ddŵr i gasglu dŵr glaw? (I ddyfrio planhigion)		
A yw dŵr glaw yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall yn yr ysgol? (gwacau toiledau, ychwanegu at lefelau pwll dŵr)		
A oes gan fyfyrwyr fynediad i'r mesurydd dŵr ac yn gwybod sut i'w ddarllen?		
<b>Camau Gweithredu/Sylwadau:</b>		

## Asesiad Amgylcheddol Ysgol

Bioamrywiaeth	Oes	Nac oes
A oes gan eich ysgol goed/gwrychoedd?		
A yw'r coed/gwrychoedd hyn yn cael eu tyfu i helpu natur? (e.e. tyfu'n wyllt)?		
A oes gan eich ysgol bwl/ardal gorsiog?		
Os felly, a yw'r pwll yn hygyrch ar gyfer bywyd gwylt?		
A yw eich ysgol yn darparu unrhyw fesurau eraill a all helpu bywyd gwylt? (Baddonau adar, glaswellt hir, blychau bywyd gwylt, perllan, gwesty chwilod, planhigion sy'n gyfeillgar i loynnod byw/gwenyn, bwydwr bywyd gwylt)		
A yw eich ysgol yn cofnodi'r gwahanol fathau o blanhigion/anifeiliaid a ganfyddir ar dir yr ysgol?		
A ydych wedi cyfyngu ar y nifer o chwynladdwyr/bla laddwyr ar dir eich ysgol?		

### Camau Gweithredu/Sylwadau:

Cyfanswm Pwyntiau =

Beth aeth yn dda?

# Asesiad Amgylcheddol Ysgol

Hyd yn oed yn well os:

